

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



**DARLLENWCH**  
I Brenhinoedd 16:  
29-33, 17: 1-7



**ADNOD**  
**ALLWEDDOL**  
I Brenhinoedd 17: 5

## Gwers 1 Elias: Duw'n Gorchymyn

Dyma gyfres o wersi am un o broffwydi mwyaf Israel, Elias. Roedd yn byw mewn cyfnod pryd yr oedd yn anodd iawn addoli Duw a'i wasanaethu. Un o'r rhesymau dros hyn oedd bod brenin drwg yn Israel.

### **C** Darllenwch I Brenhinoedd 16: 29 – 33 yn ofalus a thanlinellu'r ateb cywir sydd rhwng y cromfachau.

Enw brenin Israel oedd (AHAB / ASA / ABIRAM).


Bu'n frenin am (20 / 22 / 32) o flynyddoedd.

Roedd yn annog ei bobl i droi eu cefn ar Dduw ac i addoli duw ffug o'r enw (ETHBAAL / OMRI / BAAL).

Roedd (YN WELL NA'R / YN WAETH NA'R / CYSTAL Â'R) brenhinoedd eraill a fu o'i flaen.

Tybed a fyddai Duw yn gweithredu yn erbyn y brenin drwg? Byddai, wir. Rhoddodd Duw neges i'w broffwyd Elias i'w rhoi i'r brenin.

### **C** Darllenwch bennod 17: 1, ac ysgrifennu beth ddywedodd Elias wrth y brenin Ahab.



Dim gwllith! Dim glaw! Am flynyddoedd! Dyna ffordd Duw o wneud i Ahab ddeall ei fod yn cael ei gosbi am fod yn ddrwg. Weithiau, mae'n rhaid i ni ddeall hefyd y cawn ein cosbi am fod yn ddrwg. Am fod pobl yn bechaduriaid y daeth marwolaeth i'r byd.

### **C** Darllenwch Rhufeiniaid 6:23. Ysgrifennwch hanner cyntaf yr adnod.




5

2

2

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau uchod i ddod o hyd i air sy'n disgrifio cyfnod pan na fydd yn bwrw glaw am amser hir.



1

**C** Am faint o amser barodd y sychder? I gael yr ateb mewn misoedd, gwnewch y sym hon:-

$$(12 \times 3) + 6 = \dots\dots \text{mis}$$

Newidiwch hyn i flynyddoedd a gwirio'r ateb trwy edrych yn lago 5: 17. ....

2

Nesaf, cafodd Elias neges bersonol gan Dduw. Roedd wedi dangos ei fod yn ddewr trwy fynd â neges oddi wrth Dduw i'r brenin drwg. Nawr, dywedodd Duw wrth Elias sut y byddai'n gofalu amdano ar ddechrau'r sychder.



### CROESAIR

Darllenwch bennod 17: 2-7 eto a gwneud y Croesair.

I lawr

1. Enw proffwyd Duw.
2. I ba gyfeiriad oedd y proffwyd i fod i fynd.
3. Enw math o aderyn.
5. Enw nant.

Ar draws

4. Ni chafwyd hwn am amser hir.
6. Enw afon fawr.

			1	2	3
		4			
5					
6					

6

Fel llawer o bobl eraill, gwelodd Elias mai'r ffordd orau o fyw yw ufuddhau i Dduw ac ymddiried ynddo. Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym fod Elias yn ufudd i Dduw ac yn ei drystio.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.


2

*“Ymddiriedaf yn dy allu  
Mawr yw'r gwaith a wnest erioed.”*

--




DARLLENWCH  
I Brenhinoedd 17: 7-24



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Brenhinoedd 17: 24

## Gwers 2 Elias: Duw'n Gofalu

Cyn hir, sychodd y nant a doedd dim golwg am law. Beth allai Elias ei wneud? A oedd Duw wedi anghofio amdano? Na! Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dweud bod gan Dduw gynllun newydd i ofalu am Elias.



### C Llanwch y manylion am y wraig y cafodd Elias ei anfon ati gan Dduw.

Pa fath o wraig oedd hi?

Ym mha ddinas oedd hi'n byw?

Beth oedd hi'n ei wneud pan welodd Elias hi?

Beth oedd hi'n bwriadu ei wneud ar ôl mynd adref?

Pwy oedd yn byw gyda hi?

5

Gofynnodd Elias iddi am ddau beth.

### C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i ddangos beth oedden nhw. Nodwch rif yr adnod.

1. "cwpanaid bach o R W DD" \_ \_ \_ \_ Adnod .....
2. "tamaid o A R A F" \_ \_ \_ \_ Adnod .....

2

Doedd hi ddim yn hawdd i'r wraig wneud hyn i Elias!

### C Darllenwch adnod 12 ac ysgrifennwch frawddeg i ddweud beth oedd problemau'r wraig.

2

Pan glywodd hynny, fe wnaeth gais sy'n swnio'n hunanol iawn. "Gwna deisen fach i mi yn gyntaf," meddai, "a pharatoi un i ti dy hun a dy fab wedyn." Ond sut allai'r wraig wneud mwy nag un gan y byddai'r blawd a'r olew wedi gorffen? Roedd angen gwyrth er mwyn i hynny ddigwydd! A dyna beth a gafwyd.

**C** Darllenwch adnod 14 ac ysgrifennu yn ymyl y ddau lestr beth addawodd Duw na fyddai'n digwydd cyn iddo anfon glaw.



.....  
.....

2

Beth ddylai'r wraig ei wneud? Peidio â mentro? Cadw'r bara iddi ei hunan a'i mab?  
Neu ymddiried yn Nuw?

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i ddangos beth wnaeth y wraig.

“ N A W E T H G      H T H A U I      N Y      L O      I R A G      A S E I L ”

“ ..... ”

Cadwodd Duw ei air. Cafodd y wraig ddigon o flawd ac olew i bara tan ddiwedd y sychder.

Adnod

1

1

**C** Pa adnod sy'n dweud hynny?

.....  
.....

1

Wrth i'r dyddiau fynd heibio, roedd hi mor falch iddi wrando ar Elias ac ymddiried yn Nuw. Dylennau fod fel y wraig, yn rhoi Duw yn GYNTAF yn ein bywydau.

**C** Darllenwch beth a ddywedodd Iesu yn Mathew 6:33 ac ysgrifennwch y geiriau yma.

.....  
.....

6

Yn rhan olaf y stori, dysgodd y wraig fwy am nerth arbennig Duw.

**C** Llanwch y bylchau.

marw      dair      fyw      sâl      mab

Aeth ..... y wraig yn ..... a ..... Ymestynnodd Elias ar gorff y bachgen ..... gwaith a gweddio ar Dduw. Daeth y bachgen yn ôl yn .....

Un da yw Duw! Ef sy'n rhoi bywyd. Mae'n gofalu amdanom tra byddwn byw ac mae eisiau rhoi bywyd tragwyddol yn anrheg i ni. (Darllenwch Rhufeiniaid 6:23)



DARLLENWCH  
I Brenhinoedd 18:  
1, 2 a 16-46



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Brenhinoedd 18: 39

### Gwers 3 Elias: Herio Proffwydi Baal

Roedd Israel mewn cyflwr ofnadwy! Roedd sychder yn y tir a dim bwyd gan y bobl. Ond roedd y Brenin Ahab yn dal yn gwneud drygioni. Doedd e ddim yn gwrandao ar Dduw. Ond nawr roedd Duw yn mynd i siarad ag Ahab mewn ffordd newydd, drawiadol. Daeth Elias wyneb yn wyneb ag Ahab a'i gyhuddo o wneud DAU beth.

#### C Beth oedd y ddau beth? (Darllenwch adnodau 17 ac 18)

2

Awgrymodd Elias y gallent gael rhyw fath o gystadleuaeth i ddangos pwy oedd y gwir DDUW. Yn adnod 24 maen nhw'n cytuno mai'r gwir Dduw fyddai'r un a fyddai'n ateb gweddi ei ddilynwyr mewn ffordd bendant.

#### C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld beth oedd y ffordd hon.

Y U W D N Y ' S B E T A D W Y R N Â D D D Y F W U D D

Byddai'r 'gystadleuaeth' yn cael ei chynnal ar fynydd.

#### C Ysgrifennwch enw'r mynydd yn y blwch.

Pan ddaeth y diwrnod, roedd llawer o bobl, anifeiliaid a phethau eraill ar lethrau'r mynydd.

#### C Llanwch y bylchau i ddangos beth oedd yno.

- |                          |                 |                          |                   |            |
|--------------------------|-----------------|--------------------------|-------------------|------------|
| 1. 450 o broffwydi ..... | (adnod 19)      | 2. Dau .....             | (adnod 23)        |            |
| 3. Tipyn o .....         | (adnod 23 a 33) | 4. Pethau miniog - ..... | a .....           | (adnod 28) |
| 5. Pedwar .....          | (adnod 34)      | 6. Dwy .....             | (adnodau 26 a 30) |            |

#### C Enwch yr UN peth nad oedden nhw i fod i fynd ag ef gyda nhw i'r mynydd.

Proffwydi Baal aeth gyntaf yn y 'gystadleuaeth'. Fe wnaethon nhw baratoi popeth yn ofalus a cheisio cael eu Duw i ateb trwy anfon tân.



1

**C Ysgrifennwch frawddeg i ddweud beth wnaethon nhw i geisio cael Baal i ymateb iddynt.**


2

Ond, er eu holl ymdrechion, ddigwyddodd dim. Ni chawsant ateb gan Baal oherwydd dim ond delw oedd ef. Doedd e ddim yn gallu gweld na chlywed. Nawr, daeth tro Elias.

**C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir:-**

Trwsiodd Elias allor yr Arglwydd gan ddefnyddio 12 o gerrig. ....

Rhoddodd olew dros yr allor yn slei bach. ....

Gwaeddodd ar Dduw am oriau fel y gwnaeth proffwydi Baal. ....

Gofynnodd yn dawel i Dduw brofi mai ef yw'r gwir Dduw. ....

4

**C Clywodd Duw ei eiriau ac ateb ei weddi! YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN disgrifiwch beth ddigwyddodd ar ddiwedd gweddi Elias.**


1

Deallodd y bobl mai peth gwirion oedd addoli Baal. Roedden nhw fel pe baen nhw'n troi nôl at yr Arglwydd.

**C Llanwch y bylchau i weld beth ddywedon nhw.**

Y \_\_\_ \_\_\_ r g l \_\_\_ \_\_\_ dd s \_\_\_ dd Dd \_\_\_ !  
\_\_\_ r A \_\_\_ \_\_\_ w y \_\_\_ \_\_\_ y \_\_\_ \_\_\_ u w!

O'r diwedd, dysgodd Ahab a'i bobl pa mor wirion y buont yn gadael Duw er mwyn dilyn Baal. Roedd Duw yn dda wrthynt a, phan weddiodd Elias eto, daeth y sychder i ben yn sydyn.



1


1

**C Darllenwch adnod 45 ac ysgrifennu beth ddigwyddodd.**

Rydyn ni, fel pobl Israel, yn dueddol o droi ein cefnau ar Dduw. Mae pethau eraill yn dwyn ein sylw ni fel yr oedd y duwiau ffug yn dwyn sylw pobl Israel. Dylen ni wrando ar gyngor y stori hon ac ymddiried yn yr unig wir Dduw. Mae Duw yn ein caru – dangosodd hynny trwy anfon Iesu Grist i fod yn Waredwr i ni.

**Oni fyddai'n well i ni ymddiried ynddo'n llwyr?**

1



## DARLLENWCH

I Brenhinoedd 19: 1-16

ADNOD  
ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 19: 10

**Gwers 4 Elias: Ofn a Dryswch**

Ar ôl ei fuddugoliaeth ar Fynydd Carmel, ni chafodd Elias lawer o amser i ddathlu.


**C Darllenwch adnodau 1 a 2 yn ofalus a llanwch y bylchau.**

Cafodd ei fygwth gan wraig o'r enw .....

Dyweddodd y byddai'n trefnu iddo gael ei ladd cyn pen .....

Roedd hi'n wraig i'r Brenin ..... (Pennod 16: 30 a 31)


Roedd ofn ar Elias. Dihangodd i'r de.

**C Cewch wybod enw'r lle yr aeth iddo trwy nodi llythyren gyntaf enwau'r pethau isod.**

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Wedyn, cerddodd am ddiwrnod cyfan i'r anialwch, eisteddodd, a gweddio ar Dduw.

**C Ysgrifennwch beth a ddywedodd wrth Dduw.**


Druan ag Elias. Beth oedd wedi mynd o'i le? Lle mae'r dewrder a ddangosodd ar fynydd Carmel? Yn awr, mae'n eistedd yn yr anialwch yn teimlo'n ddryslyd a digalon. Y broblem yw ei fod wedi gadael i OFN JESEBEL gymryd lle ei FFYDD YN NUW. Mae hyn yn gallu digwydd i ni. Rydym ni'n gallu mynd yn ddigalon ac yn bryderus os gadawn i ofn a dryswch gymryd lle ein ffydd yn Nuw. Ond roedd Duw'n gwybod sut roedd Elias yn teimlo a daeth i'w helpu.

**Darllenwch adnodau 5 – 8 ac ateb y cliwiau.****I lawr**

1. Enw'r math o goeden y gorffwysodd Elias o dani.
2. Anfonodd Duw fwyd a \_\_\_\_\_ i Elias.

**Ar draws**

3. Cymerodd Elias \_\_\_\_\_ o dan I i lawr.
4. Sawl gwaith gafodd Elias ei gyffwrdd?
5. A beth gafodd Elias ei gyffwrdd?



3


1

1

5

Roedd Elias yn gryfach o lawer erbyn hyn! Teithiodd ymlaen am 40 diwrnod arall a chyrraedd ogof. Yma eto, roedd yn teimlo'n unig ac yn ofnus. Ond roedd Duw yn dal gydag ef. "Beth wyt ti'n ei wneud yma, Elias?" gofynnodd Duw.

**C Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ysgrifennu ateb Elias yma.**



2

Unwaith eto, dangosodd Duw ei fawredd i'w broffwyd – nid trwy roi bwyd iddo y tro yma ond trwy ddangos ei fod yn rheoli byd natur.

**C Darllenwch adnodau 11 – 14 a rhowch y brawddegau hyn yn eu trefn gywir trwy ysgrifennu'r rhifau 1 – 5 yn y bocsys.**

Daeth daeargryn ac ysgwyd y mynyddoedd.

Rhuodd gwynt ffyrnig a malu'r creigiau.

Gofynnodd Duw eto "Beth wyt ti'n ei wneud yma, Elias?"

Daeth tân oddi wrth yr Arglwydd.

Clywodd Elias lais bach tawel.

5

Ffordd Duw o ddweud wrth Elias am ymddiried ynndo a pheidio â bod yn ofnus oedd hyn. Mae hon yn wers bwysig i ni i gyd. Mae'n cael ei chrynhoi yn Salm 56: 3.

**C Ysgrifennwch yr adnod.**

2

Erbyn hyn, roedd Elias yn barod i ddilyn arweiniad Duw. Roedd i fod i fynd i ogledd y wlad, dod o hyd i nifer o ddynion a'u heneinio. (Mae "eneinio" yn golygu rhoi olew ar ben rhywun i ddangos ei fod yn cael gwaith pwysig fel brenin neu broffwyd.)

**C Faint o ddynion oedd Elias i fod i'w heneinio?  
Cylchwch yr ateb cywir.**

6

3

4

5

2

1

Roedd gan Elias nifer o bethau anodd i'w gwneud o hyd cyn i Dduw fynd ag ef i'r Nefoedd. Ond roedd wedi dysgu bod Duw yn gallu ei helpu i beidio â bod yn ofnus ac i fod yn gryf wrth wasanaethu Duw. Mae honno'n wers bwysig i ni hefyd!

**cyfanswm**

Marciau  
[i'w nodi gan yr athro]

---

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120